TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC Diploma Sylfaen Cenedlaethol mewn Cyfrifiadura Lefel 3



**Yn gryno**

Bydd dysgwyr yn datblygu craidd cyffredin o wybodaeth TG a meysydd astudiaeth megis: y perthynas rhwng caledwedd a meddalwedd sydd yn ffurfio systemau TG, rheoli a phrosesu data, defnyddio TG i gyfathrebu ac i rannu gwybodaeth a sgiliau meddwl yn gyfrifiadurol. Byddwch hefyd yn edrych ar egwyddorion dylunio a datblygu rhaglennu cyfrifiadur er mwyn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen nid yn unig ar y sector cyfrifiadura ond ar bob sector sy'n defnyddio technoleg yn y byd modern.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych am gael cyfuniad o wybodaeth TG a sgiliau ymarferol

... Ydych chi'n frwdfrydig am dechnoleg

... Yn mwynhau bod yn greadigol

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Dyluniwyd y rhaglen i ddatblygu eich sgiliau technegol ym meysydd diogelwch systemau, datblygu meddalwedd a dylunio gemau.

Byddwch yn astudio unedau craidd yn y flwyddyn gyntaf, ac yna symud ymlaen i Ddiploma Estynedig yn yr ail flwyddyn. Byddwch yn astudio ystod eang iawn o bynciau TG a allai gynnwys:

Blwyddyn 1:

Systemau technoleg gwybodaeth (arholiad)
Creu systemau i reoli gwybodaeth (arholiad)
Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn busnes
Rhaglennu

Datblygu gwe
Datblygu gemau cyfrifiadur

Blwyddyn 2:

Seibrddiogelwch a rheoli digwyddiadau (arholiad)
Darparu gwasanaethau TG (arholiad)
Rheoli prosiectau TG
Storio ac offer cydweithio ar y cwmwl
Graffigwaith digidol 2D a 3D
Animeiddiad ac effeithiau digidol
Y rhyngrwyd o bethau

Cewch eich asesu drwy waith cwrs ac arholiadau yn y blynyddoedd cyntaf ac ail, a byddwch yn cyflawni:

Lefel 3 mewn Cyfrifiadura
Gweithgareddau Sgiliau
Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Er mwyn ymrestru, bydd angen o leiaf 5 TGAU ar radd C neu'n uwch arnoch, gan gynnwys Mathemateg/Rhifedd a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf; neu gymhwyster Diploma Lefel 2 priodol ar radd Teilyngdod gyda TGAU Mathemateg/Rhifedd a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf ar radd C neu'n uwch.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn ofynnol. Parch tuag at eraill, brwdfrydedd dros y pwnc a hunan-gymhelliant yw'r rhinweddau hanfodol yr ydym yn disgwyl eu gweld ym mhob un o'n dysgwyr. Byddwch yn cael eich asesu'n barhaol a bydd disgwyl i chi barhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

HND mewn Cyfrifiadura neu Radd Sylfaen mewn Diogelwch TG yn Coleg Gwent
Cyrsiau prifysgol mewn pynciau megis cyfrifiadura, dylunio gemau cyfrifiadur, gwaith fforensig cyfrifiadurol, e-fasnachu, gemau, rheoli systemau gwybodaeth neu reoli cronfeydd data.
Cyflogaeth fel is-ddatblygwr neu dechnegydd cyfrifiaduron ayyb
Prentisiaeth mewn cwmni TG neu Gyfrifiadura addas